


Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae & gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae **Hydref 2007**



Chwarae yn y Strydoedd



www.chwaraecymru.org.uk



Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Canolfan Genedlaethol Gwaith Chwarae yng Nghymru	3
Asedau heb eu Hawlio	3
Yswiriant Rhatach	3
Gweinidog Plant Newydd	3
Pontio'r Gagendor Polisi	3
Y Diweddaraf am <i>Play Inclusive</i>	4
Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn cymunedau	4
Canllaw Newydd ar gyfer Strydoedd	4
Trysor Newydd yng Nghaerfyrddin	4
OBE i Arwr	5
Plant Anabl yn Cyfri	5
Gleision Caerdydd yn cefnogi chwarae allan yn ddiogel	5
Ble fydden ni heb grafiadau ar bengliniau?	6
Parthau Cartrefi	7
Diwrnod Chwarae	8
Mynd allan i chwarae	10
Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus	11
Dyddiadur Dan Rees-Jones	12
Cymuned yn cymryd yr awenau	13
Canolfan Newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru	14
Hyfforddiant Gwaith Chwarae yn y Gymraeg	15
Chwarae Dysgu Tyfu	15
Digwyddiadau ac Ariannu	16

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Balfig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: info@playwales.org.uk
ISSN: 1755 9243

Rhif Elusen Gofrestredig, 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf.

Ffôn: 01443 843 520

E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Golygyddol

Rydym yn falch iawn i Jane Huft RAC, sydd newydd ddychwelyd i'r swydd Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ddewis i ddefnyddio Diwrnod Chwarae i gyhoeddi eu bod yn ymrwymo cyllid ar gyfer Canolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i'w rhedeg gan Chwarae Cymru. Hoffem ei chroesawu yn ôl a'i llongyfarch ar deill sy'n rhoi plant yn gyntaf.

Canolbwyntiodd ymgyrch Diwrnod Chwarae eleni'n sylw ar y diffyg cyfle sydd gan ein plant i chwarae yn y strydoedd a chrwydro yn eu cymdogaeth eu hunain. Efallai i'n darllenwyr glywed cyfweiliadau ar BBC Radio Wales neu ddarllen rhifyn o'r Western Mail ddechrau Awst oedd â'i dudalen flaen yn galw am weithredu er mwyn i blant allu chwarae'n ddiogel y tu allan i'w cartrefi.

Mae'n rhwydd iawn edrych yn ôl â hiraeth rhostliw a dilorni plant heddiw am dreulio gormod o amser yn y tŷ, yn gorweddian o flaen sgrîn. Ond mae'r rhwystrau y credwn sy'n bodoli i'w hatal rhag chwarae allan yn tyfu'n fwy bob dydd, mae marchnata gemau electronig yn tyfu'n fwyfwy deniadol ac mae'r temtasiwn i ni fel oedolion i ddefnyddio'r rhain a'r teledu fel gwarchodwyr yn llawer mwy cyfleus na mynd i'r afael â'r broblem go iawn sef nad yw'n plant, o ganlyniad i oruchafiaeth ceir cyflym ar ein heolydd, yn teimlo'n ddiogel. Dros yr 50 mlynedd diwethaf mae'r amgylchedd ffisegol wedi newid y tu hwnt i bob diwrnod ac o ganlyniad i'r cynnydd anferthol yn nifer a chyflymder ceir mae'n llawer llai cyfeillgar i chwarae. Nid dim ond digwyddiad chwarae undydd yw'r ymgyrch Diwrnod

Chwarae hon, ond mae hefyd yn ymwneud â gweithio tuag at newid amgylcheddol cynaliadwy. Mewn ymateb i arolwg gan Sefydliad Joseph Rowntree i'r hyn y mae pobl yn ei ystyried yn ddyrgau cymdeithasol, soniais bod y modd yr ydym wedi caniatáu i'n perthynas gyda'r car i ddyllanwadu ar gynllunio a datblygiad a hynny er anfantais fwyaf i blant. Y modd y byddwn ni (ac rwy'n cynnwys fy hunan yma) fel perchnogion cerbydau a gyrrwr yn derbyn budd anghyfartal yn y broses o gynllunio'r system drafnidiaeth a dylunio cymunedau. Yn fy marn i, dyma'r nodwedd unigol mwyaf dylanwadol o gymdeithas fodern gafodd effaith negyddol sylweddol ar y cyfle i blant chwarae allan. Dengys tystiolaeth mai'r unig nodwedd o fywyd plant sy'n achosi iddynt fod yn llai diogel na chenedlaethau blaenorol yw o ganlyniad i gynnydd yn y lefel traffig a chyflymder traffig. Yn ogystal, golyga'r gwerth y byddwn ni fel perchnogion yn ei roi ar ein ceir a'u paent yn sicrhau ein bod yn byw mewn amgylchedd ble y rhoddwn fwy o bwyslais ar geir, hyd yn oed pan fyddant wedi eu parcio, nac ar blant.

Fel perchnogion a gyrrwr ceir, mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i newid ein arferion gyrru mewn ardaloedd ble y gall plant fod yn chwarae. Aiff y broblem yma fyth i ffwrdd ac rydym ni'n rhan ohoni. Bydd angen inni edrych ar ein defnydd ein hunain o'n ceir a'n dibyniaeth ar gludiant moduron. Gallwn ofyn i'n hunain pa newidiadau allwn ni eu gwneud yn ein bywydau fel y gall plant chwarae allan yn fwy diogel. Fel y dywed yr hen daihareb Tsieineaidd,

"Bydd taith o fil o filltiroedd yn dechrau ag un cam."

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr

Ymwelwch â
www.chwaraecymru.org.uk
 am y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Canolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu Chwarae Cymru i ymgymryd â datblygu Canolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru. Dros y tair blynedd nesaf bydd y Ganolfan yn cefnogi'r sector gwaith chwarae i drosglwyddo gwasanaethau o safon i blant.

Am ragor ynglŷn â'r Ganolfan Hyfforddi Genedlaethol ewch i dudalen 14.

Asedau sydd heb eu Hawlio

Mae arian sydd mewn cyfrifon cwsg mewn banciau a chymdeithasau adeiladu i gael ei rannu i achosion da trwy'r Gronfa Loteri FAWR.

Ym mis Mai 2007 lanswyd ail ddogfen ymgynghorol ar y cyd rhwng yr Ygrifennydd Economaidd i'r Trysorlys, Ed Balls, a Gweinidog y Trydydd Sector, Ed Miliband, ar ddatblygiad cynllun asedau sydd heb eu hawlio ar gyfer y DU.

Argymhellodd ymateb drafft Chwarae Cymru bod "yr arian yma o 'asedau sydd heb eu hawlio' yn cynnig cyfle unigryw am arian newydd ar gyfer datblygu a chefnogi darpariaeth chwarae ar gyfer plant yn eu cymunedau eu hunain. Byddai hyn yn cynorthwyo gyda newidiadau cyd-destunol fel a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae a gyda ffocws strategol a chynyddu cyrhaeddiad wedi ei ariannu trwy Raglen Chwarae Plant Y Gronfa Loteri FAWR."

Gweinidog Plant Newydd

Pleser o'r mwyaf gan Chwarae Cymru oedd croesawu Jane Hutt i'w swydd newydd fel Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgilliau.



Nid dyma'r tro cyntaf i Jane Hutt fod yn gyfrifol am chwarae plant ar lefel genedlaethol. Yn 2002 hi fu'n gyfrifol am oruchwylio mabwysiadu ein polisi chwarae cenedlaethol.

Yswiriant rhatach



Roeddem yn hynod o falch i dderbyn y llythyr hwn gan Chwarae Iawn, cymdeithas chwarae ardal Abertawe a Chastell-nedd/Port Talbot:

Annwyl Olygydd

Fel mudiad chwarae annibynnol lleol rydym, fel llawer un arall, wedi dysgu bod y gost o yswirio ein maes chwarae antur yn hynod o ddrud. Ond rydym am dynnu sylw darllenwyr Chwarae dros Gymru at ein lwc dda'n ddiweddar: trwy chwilio am y fargen orau, rydym wedi llwyddo i ostwng ein premiwm yswiriant maes chwarae antur saith deg pump y cant! Mae ein hyswirwyr newydd yn codi chwarter yr hyn yr oedd ein hyswirwyr blaenorol yn ei wneud.

Rydym yn fwy na pharod i rannu'r manylion â darparwyr chwarae eraill sydd am roi galwad inni ar 01792 794884 neu e-bostiwch helen@playright.org.uk

Helen Elton, Cyfarwyddwraig, Chwarae Iawn

Pontio'r Gagendor Polisi

Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, mewn cydweithrediad â Dinas a Sir Abertawe, yn cynnal adolygiad cyfoedion o'r Strategaeth Chwarae Plant ar gyfer Abertawe.

Gwahoddwyd unigolion o sefydliadau llywodraethol, grwpiau cymunedol a'r rheini y mae'r Strategaeth wedi effeithio ar eu bywydau, i ddigwyddiad deuddydd yng nghanol mis Medi. Pwrpas y digwyddiad oedd gwerthuso llwyddiant y polisi, a phenderfynu os y gellid trosglwyddo gwersi a ddysgwyd i bolisiau eraill sy'n targedu eithrio cymdeithasol a thlodi ym Mhrydain.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Karen Grunhut ar 01792 637404 neu Karen.Grunhut@swansea.gov.uk



Y diweddaraf ar *Play Inclusive* Cyhoeddiad ar gefnogi chwarae

Symudodd y prosiect blaengar *Play Inclusive*, neu Pinc yn fyr, i *Play Scotland* ym mis Mai eleni.

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio Pinc fel prosiect ym maes chwarae antur 'The Yard' yng Nghaeredin. Bydd *Play Scotland* yn datblygu Pinc fel rhan o raglen hyfforddiant a chefnogaeth.

Mae'r adnodd Pinc diweddaraf ar gael hefyd gan *Play Scotland*. Lanswyd 'People play together more' gan Kathleen Marshall, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Yr Alban ym mis Mawrth. Mae'n cynnwys llawer o gyngor ymarferol ar hwyluso chwarae plant o bob gallu, yn cynnwys:

- adnoddau chwarae rhad a diddorol
- ffyrdd o osod pethau yn eu lle ar gyfer chwarae y tu mewn a'r tu allan
- addasu cyfleoedd i gwrdd ag anghenion unigol
- technegau i gefnogi plant i chwarae gyda'i gilydd
- dulliau ar gyfer ymgynghori â phlant

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein, ynghyd â PDF o adroddiad ymchwil Pinc y gellir ei lwytho i lawr, sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng cyfeillgarwch, cynhwysiad a chwarae - www.playscotland.org (o dan 'what we do' ac yna 'training').

Neu cysyllter â Susan McIntyre, Cydlynnydd Datblygiad *Play Scotland* ar 0131 440 9070 neu

susanmcintyre@playscotland.org

Canllaw Newydd ar gyfer Strydoedd yng Nghymru a Lloegr

Mae'r Adran Trafnidiaeth, a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLIL), gyda chymorth gan y Comisiwn dros Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE), wedi datblygu cyhoeddiad newydd sef y 'Manual for Streets'; canllaw i "ddylunio, adeiladu, mabwysiadu a chynnal a chadw strydoedd newydd sydd â'r bwriad o ddarparu strydoedd sy'n helpu i atgyfnerthu cymunedau, sy'n braf a deniadol, sy'n gost-effeithiol i'w hadeiladu a'u cynnal a'u cadw, ac sy'n ddiogel" (The Manual for Streets: Evidence and Research – TRL 2007).

I lwytho copi o'r adroddiad i lawr, ewch i www.dff.gov.uk/pgr/sustainable/manforstreets/

Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn cymunedau

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwahodd Awdurdodau Lleol i geisio am gyllid ar gyfer Cynlluniau Newydd Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

Mae'r cynllun hwn wedi ei ddatblygu o'r fenter Llwybrau Diogel i'r Ysgol a bydd prif ffocws y rhaglen newydd hon yn parhau i fod ar ysgolion, oherwydd yn y mwyafrif o achosion maent wedi eu lleoli wrth galon y gymuned.

Bydd hefyd yn annog datblygu llwybrau cerdded a seiclo sy'n creu cyswllt â chyfleusterau pwysig eraill o fewn cymunedau, fel canolfannau hamdden a pharciau.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw'r 26ain Hydref 2007. Am ragor o wybodaeth cysyllter ag Uned Cynllunio Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gallwch ganfod manylion cyswllt swyddogion diogelwch y ffyrdd pob awdurdod lleol ar:

www.roadsafetywales.co.uk/cymraeg/contacts/index.htm

Trysor Newydd yng Nghaerfyrddin

Mae llond drwn o bobl sy'n byw yn ardal Drefach-Felindre, Sir Gaerfyrddin a ddaeth at ei gilydd gan eu bod yn pryderu am yr amgylchedd, yn frwd ynghylch creadigedd a chwarae, ac yn credu y gellid gwneud defnydd da o wastraff, wedi cadw eu breuddwyd yn fyw ers 1993 a'i throï'n wirionedd.



Mae'r Trysordy yn storfa sgrap newydd fydd yn agor ar ddiwrnod cyntaf gwyliau hanner tymor yr Hydref (Sadwrn 27 Hydref) a chynhaliwyd y cyrsiau ailgylichu creadigol cyntaf yno yng nghanol mis Medi.

Wedi ei lleoli ar gyrion Caerfyrddin, mae'r storfa sgrap wedi cael ei chreu i wasanaethu cymunedau yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Mae'r Trysordy'n cynnig deunyddiau gwastraff diogel, glân a rhad a gyfranwyd gan wneuthurwyr diwydiannol ynghyd ag offer i'w logi, ystafelloedd cwrdd a hyfforddi i'w llogi ynghyd â chynghor, gwybodaeth a hyfforddiant. Mae'n sefydliad â aelodaeth, nid-er-mwyn-elw, sy'n agored i unrhyw unigolyn, teulu neu grŵp.

Dysgwch ragor ar www.trysordy.org.uk neu galwch 01267 231980



OBE i Arwr

(Maes Chwarae Antur)

Mae Malcolm King, sy'n ymddiriedolwr etholedig o Fwrdd Chwarae Cymru, wedi derbyn OBE am ei wasanaeth i blant a phobl ifanc.

Dywedodd Malcolm, rheolwr Maes Chwarae Antur 'The Venture' yn Wrecsam:

"Er bod gennyf deimladau cymysg ynghylch y system anrhydeddau, roeddwn yn falch iawn i dderbyn yr OBE. Roeddwn yn weddol falch ohonof fy hun, ond mae'n gydnabyddiaeth hefyd i'r holl bobl eraill sydd wedi bod ynghlwm â'r fenter dros y blynyddoedd. Mae 'The Venture' yn le unigryw ac fe hoffwn feddwl fy mod wedi cyfrannu rhywfaint at nifer o wahanol bethau ym Mharc Caia."

Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru

Mae Plant Anabl yn Cyfri yn Ymgyrch newydd a sefydlwyd yng Nghymru i adlewyrchu Ymgyrch 'Every Disabled Child Matters' yn Lloegr. Caiff ei rhedeg gan grŵp llywio o bedwar sefydliad – Plant yng Nghymru, Cyswllt Teulu Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a MENCAP Cymru.

Bydd Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru yn pwysu i blant anabl a'u teuluoedd gael:

- Mynediad i'r wybodaeth gywir ar yr adeg cywir
- Hawl i wir ddewis o addysg o safon
- Mynediad i'r gwasanaethau iechyd y byddant eu hangen i fyw bywyd cyffredin
- Mynediad i ystod gyflawn o weithgareddau chwarae a hamdden
- Dweud eu dweud yn y broses o gynllunio'r gwasanaethau y byddant yn eu derbyn
- Mynediad llawn i gyfleusterau cymunedol
- Digon o arian i fyw arno

Gallwch gofrestru i fod yn than o'r ymgyrch ar www.dcmw.org.uk

Gleision Caerdydd yn cefnogi ymgyrch i blant chwarae allan yn ddiogel



Fe allwch ddychmygu siom Jo Jones pan glywodd fod raid iddi 'glosio' at aelodau o dîm Rygbi Gleision Caerdydd mewn lluniau a dynwyd yn ddiweddar i hyrwyddo ymgyrch "Ein Strydoedd Ni Hefyd" ym Mro Morgannwg, ond fe frwydrodd ymlaen (fel y dylai pob swyddog datblygu chwarae da!).

Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn cydweithrediad â thimau datblygu'r celfyddydau, priffyrdd a diogelwch y ffyrdd Cyngor Bro Morgannwg i amlygu'r angen i yrwyr arafu, yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf gan fod mwy o blant yn chwarae allan.

Dywedodd Blaenwr y Gleision, Mark Lewis: "Rydym yn awyddus i arwain trwy esiampl – mae'n bwysig inni yrru'n gyfrifol ac i gymryd gofal priodol a diogelwch fel un o'n blaenoriaethau. Mae ein fîm Rygbi'n cydnabod y gall strydoedd lleol fod yn brysorach nag arfer gyda phlant yn chwarae yn ystod y gwyliau."

Lansiwyd yr ymgyrch yn ystod y cyfnod yn arwain at Ddiwrnod Chwarae, a ddatihwyd yn y Fro gyda digwyddiad arbennig ym Mharc Central Y Bari.

Dywedodd Jo Jones: "Dylai plant elwa o allu chwarae mewn strydoedd ger eu cartrefi trwy gydol y flwyddyn – boed hynny'n cynnwys beiciau, esgidiau rholio, ardaloedd penodol ar gyfer gemau pêl, sgots, sgipio neu ddim ond profi byd gwahanol oddi wrth y teledu. Beth bynnag fo'u dewis, dylai chwarae gynorthwyo eu datblygiad personol, bod yn hwyl gwyh ac, yn y pen draw, yn ddiogel."

Dangosodd ffigyrau a ryddhawyd yn ddiweddar, mewn arolwg ICM a gomisiynwyd gan *Play England* ar gyfer Diwrnod Chwarae 2007, bod plant ac oedolion fel ei gilydd yn ystyried mai traffig yw'r prif ffactor sy'n rhwystro plant a phobl ifanc rhag chwarae neu dreulio amser yn y strydoedd neu'r manau ger eu cartref.

Dywedodd y Cyngorydd Gwyn John, Aelod Cyngor Bro Morgannwg dros Hamdden a Thwrstiaeth: "Mae chwarae yn y strydoedd yn helpu plant i gael rhagor o awyr iach, rhyddid, ymarfer corff ac i fagu dealltwriaeth o ddiogelwch trwy ddsygu am y byd o'u hamgylch a sut i ddod yn aelodau ifanc gweithgar o'r gymuned. Y rhwystr pennaf i blant chwarae yn eu strydoedd lleol yw traffig, ond trwy weithio gyda'n gilydd i gynyddu ymwybyddiaeth gallwn i gyd helpu i wella diogelwch yn ein hardal leol".



Ble fydden ni heb grafiadau ar bengliniau?

Alex Allen, Uwch-swyddog Prosiect Strydoedd DIY Sustrans sy'n adrodd ar fenter newydd

Byddwn yn dysgu llawer fel plant – byddwn yn gweithio allan sut y mae'r byd o'n hamgylch yn gweithio ac yna byddwn yn chwarae ynddo.

Trw y chwarae y bydd pobl ifanc yn datblygu; byddant yn dysgu sut i wneud pethau'r ffordd iawn, neu'r ffordd anghywir, a sut i oresgyn eu hofnau.

Trwy grafu ein pengliniau yr oedden ni'n dysgu trwy chwarae pa oeddem yn ifanc, ond yn anffodus mae llawer o rieni'n teimlo'n anghyfforddus ynghylch gadael i'w plant chwarae allan y dyddiau hyn. Felly pa gamau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd yng Nghymru i annog rhagor i chwarae allan? Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn cadw'n heini, yn cael awyr iach ac yn cael hwyl yn yr awyr agored?

Cred Sustrans, y prif elusen cludiant cynaliadwy, bod chwarae'n hanfodol i hapusrwydd plant ac y gall yr amgylchedd yr ydym yn bwy ynddo wneud gwir wahaniaeth i bryderon rhieni ynghylch diogelwch ac i fwyhad plant o'u cymdogaethau. Mae prosiect diweddaraf Sustrans yn anelu i annog rhagor o chwarae allan, trwy gynorthwyo trigolion deg stryd ym Mhrydain i ail-ddylunio eu strydoedd eu hunain mewn modd fforddiadwy, er mwyn eu gwneud yn fwy diogel ac yn fannau mwy deniadol i fyw ynddynt. Bydd un o'r deg o strydoedd yma yng Ngogledd Grangetown yng Nghaerdydd (gyda chefnogaeth Cyngor Caerdydd) gydag ail stryd yn Ne Cymru dan ystyriaeth hefyd.

Felly beth yn union yw Strydoedd DIY? Yn y bôn mae Strydoedd DIY yn strydoedd sy'n gyfeillgar i bobl, sy'n anelu i sicrhau bod cerddwyr a beicwyr yn cael eu hystyried yn gyfartal i yrrwyr ceir – bydd dylunio dyfeisgar yn annog ceir i deithio'n araf deg.

Bydd yn arbrofi agwedd ffres tuag at ailddatblygu strydoedd, gyda'r pwyslais ar strydoedd fel manau cymdeithasol. Daw ysbrydoliaeth arbennig o gynllun gwreiddiol 'home zones' o'r Iseldiroedd, aeth i'r afael â phroblemau oedd yn gysylltiedig â thraffig, ond profodd y rhain i fod yn gostus mewn prosiectau peilot yn y DU.

Trwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a defnyddio agwedd ddylunio gaiff ei harwain gan y gymuned, byddwn yn cynorthwyo trigolion i ddatblygu datrysiadau rhad i'r problemau traffig yn eu strydoedd, gan ddefnyddio dulliau a deunyddiau syml. Caiff y prosiect ei ariannu'n rhannol trwy grant gan Sefydliad Esmée Fairbairn, a disgwylir derbyn cyllid gan gynghorau, cymdeithasau tai a chyrrff adfywio.

Mae'r ffaith ei fod yn cael ei arwain gan drigolion yn rhan annatod o lwyddiant y prosiect gan ei fod, yn ogystal â gosod mesurau tawelu traffig yn eu lle a gwneud y strydoedd yn lasach trwy blannu planhigion, yn anelu hefyd i annog pobl i ryngweithio â'i gilydd. Boed hynny trwy gynnal parti stryd, trwy ddarparu manau eistedd awyr agored ar gyfer cymdeithasu neu'n syml iawn trwy arafu cyflymder a gostwng lefel y traffig er mwyn caniatáu i blant chwarae yn y stryd unwaith eto. Mae'r broses gynllunio gyflawn wedi ei anelu at wneud y stryd yn fan cymdeithasol gaiff ei werthfawrogi.



Gan fod mesur gobethion trigolion ar gyfer eu stryd ar lefel personol yn gywir yn hynod o bwysig, cynhelir gwerthusiad manwl cyn ac ar ôl y prosiect i ddarganfod yn union pa gynllun sy'n gweddu orau i'r trigolion. Bydd Strydoedd DIY hefyd yn defnyddio arf gwerthuso newydd y Comisiwn dros Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig, sef y 'Spaceshaper', sy'n dod ag ymarferwyr a defnyddwyr ynghyd mewn gweithdy gaiff ei hwyluso i drafod sut y mae man cyhoeddus yn gweithio.

Er bod gwneud y strydoedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer chwarae plant yn un o nodau canolog Strydoedd DIY, nid yw atgyfodi chwarae yn y stryd mor syml â dim ond darparu amgylchedd ar gyfer chwarae; mae angen delio hefyd â'r modd y mae pobl yn dilyn eu strydoedd ar hyn o bryd. Dengys gwaith ymchwil bod y mwyafrif o rieni'n ystyried bod strydoedd yn beryglus i blant o safbwynt traffig yn ogystal â 'pherygl dieithriaid', ac felly byddant yn cadw eu plant i mewn.

Mae Strydoedd DIY yn gobethio mynd i'r afael â'r materion hyn trwy weithio mewn partneriaeth â trigolion i newid y modd y maent yn ystyried eu strydoedd, o fannau ble y mae'r car yn drech i fannau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n gyfeillgar i chwarae. Mae creu ffiniau aneglur, cynyddu gweithgarwch ar ochr y ffordd neu gynnwys elfen o ansicrwydd i gyd yn ddulliau a fu'n llwyddiannus a chaiff y rhain eu treialu gan Strydoedd DIY.

Y Stryd DIY gyntaf i gael ei chreu yw Penn Street ym Manceinion, ac o'r diwrnod cyntaf un mae wedi profi ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar chwarae. Mynychodd pedwar o blant y cyfarfod trigolion cyntaf ym mis Gorffennaf i leisio eu barn ac i fynegi diddordeb. Wrth gwrs, roedd gweld yr hyn allai'r prosiect ei olygu iddynt hwy yn bwysig – roeddent yn llawn syniadau yr oeddent am eu rhannu ar sut i sicrhau mai pobl oedd flaenaf, ac nid ceir. Un syniad dderbyniodd gefnogaeth gwresog oedd troi eu stryd gyfan yn gae pêl-droed!

Bydd gwaith yn dechrau yn ardal Gogledd Grangetown, Caerdydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

www.sustrans.org.uk
www.cabe.org.uk



Parthau Cartrefi

Deddfwriaeth a Pholisi yng Nghymru

Mae Deddf Trafnidiaeth 2000 yn gwneud darpariaethau i Awdurdodau Lleol bennu Parthau Cartrefi a Lonydd Tawel yn eu hardal.

Bellach gall Awdurdodau Lleol weithredu "gorchmynion defnydd" sy'n caniatáu i heolydd gael eu defnyddio at "ddibenion ar wahân i dramwyo", fydd yn caniatáu i drigolion lleol ddiffinio sut yr hoffent ddefnyddio eu strydoedd. Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau'n caniatáu i Awdurdodau gyflwyno "gorchmynion cyflymder" i bennu cyflymder (is) cynghorol – o 20mya neu lai.

Sylwadau ar y Fframwaith Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr

Mae Cymal (1) Adran 268 yn caniatáu i awdurdodau traffig lleol yng Nghymru a Lloegr ddynodi unrhyw stryd neu strydoedd yn Parthau Cartrefi, heb unrhyw gyfyngiadau. Gellir pennu parthau cartrefi trwy Benderfyniad Cyngor (e.e. trwy adroddiad i Aelodau neu Swyddogion o'r Pwllgor). Dylai'r penderfyniad gael ei wneud cyn i waith ddechrau a chyn y gellir gosod arwyddion. Ond, nid yw hyn yncdo'i hun yn newid defnydd cyfreithiol y briffordd o fewn Parthau Cartrefi. Caiff hyn ei gyflawni trwy **Gymal (2)**, sy'n galluogi Cynulliad Cymru i weithredu rheoliadau, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol greu "Gorchmynion Defnydd" a "Gorchmynion Cyflymder" ar gyfer Parthau Cartrefi penodedig. Y Gorchmynion Defnydd, a ddiffinir yng **Nghymal (3)**, yw'r grym newydd mwyaf arwyddocaol gan ei fod yn caniatáu i weithgareddau ar wahân i dramwyo cerbydau ddigwydd yn gyfreithiol ar strydoedd. Mae'r nodiadau atodol ddaw gyda'r Ddeddf yn diffinio'r gweithgareddau hyn fel chwarae plant a gweithgarwch cymdeithasol arall. Mae **Cymal (4)** Adran 268 yn nodi na chaniateir i unrhyw un greu rhwystr ar y stryd na gwrthod mynediad i eiddo, a bod rhaid cynnal swyddogaeth tramwyo a mynediad y briffordd. Golyga hyn bod raid i unrhyw ddefnydd o'r stryd fod yn rhesymol ac na ddynodir unrhyw flaenoriaeth rhwng cerddwyr a cherbydau.



Bwriad y fframwaith deddfwriaethol yw creu strydoedd ble na fydd gan yrwy'r hawl mwyach i ddisgwyl i bobl, gan gynnwys plant, i roi blaenoriaeth i gerbydau. Mae Canllawiau *The Institute of Highway Incorporated Engineers (IHIE)* yn cynnig mabwysiadu cyflymder targed o 10mya o fewn Parthau Cartrefi, sy'n cyfateb â'r drefn mewn rhannau eraill o Ewrop.

Rhestr ddarllen

'Home Zone Design Guidelines'

Mae Canllawiau'r IHIE a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2002 yn cynnig cyngor ymarferol ar arfer da i ddyfynwyr ac eraill sydd ynghlwm â chynllunio, dylunio neu gymeradwyo Parthau Cartrefi yn y DU. Ymwelwch â

www.homezones.org.uk/public/guidance/index.cfm

'Home Zones: Challenging the Future of our Streets'

Mae'r ddogfen hon yn anelu i rannu arfer da datblygu cynlluniau a dylunio Parthau Cartrefi, gan ddefnyddio profiad a enillwyd o'r Her Parthau Cartrefi. Mae'n cyfannu canllawiau cynllunio a gyhoeddwyd eisoes. Ymwelwch â

www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/homezones/cfos/

Mae'r 'Manual for Streets' yn cynnig arweiniad i ymarferwyr sydd ynghlwm â chynllunio, dylunio, darparu a chymeradwyo strydoedd preswyl newydd, yn ogystal â newidiadau i strydoedd sy'n bodoli eisoes. Mae'n anelu i gynyddu ansawdd bywyd trwy gynllunio da, sy'n creu strydoedd sy'n fwy addas i bobl.

www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/manforstreets/

'Living with risk: promoting better public space design' – Y Comisiwn dros Bensaerniaeth a'r Amgylchedd Adeiledig (CABE)

Sut mae'r ymateb yma i bryderon iechyd a diogelwch yn effeithio ar safon ein strydoedd, parciau a sgwarau? A yw'n creu amgylchedd ble y mae annog dylunio dyfeisgar a mentrus yn tyfu'n fwyfwy anodd? Mae 'Living with risk' yn archwilio'r cwestiynau hyn, yn ceisio barn sefydliadau cenedlaethol ac yn archwilio 10 cynllun diweddar i wella mannau cyhoeddus.

www.cabe.org.uk/default.aspx?contentid=1932

www.homezones.org.uk



Diwrnod Chwarae

O amgylch Cymru ar Awst y 1af bu nifer o ddatiliadau Diwrnod Chwarae'n cynnig amser hwyliog i blant, yn ogystal ag amlygu'r angen am weithredu o fewn cymunedau a gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau i gefnogi angen ac awydd plant i chwarae allan mewn amgylchedd sy'n fwy cyfeillgar i blant...

Caerdydd

Cynhaliodd Re-create, mewn partneriaeth â Playbus, eu pedwerydd Datiliad Diwrnod Chwarae ym Mharc Britannia ym Mae Caerdydd, rownd y gornel o Senedd Cynulliad Cymru. Cymerodd dros 120 o blant ran mewn gweithdai sgrap, adeiladu castell cardbord, sgipio a sglefrfyrdio a bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol. Yn ogystal, cafwyd ymweliad gan y Gweinidog dros Blant, Jane Hutt AC, a ddisgrifiodd y pethau yr oedd hi'n hoffi eu gwneud pan yn blentyn:

"Roeddwn i'n hoffi chwarae yn y stryd, ond wrth gwrs roedd llawer llai o geir o amgylch bryd hynny. Roeddwn i wrth fy modd hefyd yn dringo coed ac mae'n rhaid i mi ddiwedd fydda'i ddim yn gweld llawer o blant yn dringo coed y dyddiau hyn. Y peth rwy'n ei gofio fwyaf yw gwisgo lan a chreu cuddfannau yn y tŷ a'r tu allan, ac wrth gwrs creu llawer o deisennau mwa".

Dyma rai o'r sylwadau a ysgrifennwyd gan y plant ar y diwrnod:

- "Roedd e'n wych, roedd yn cynnwys yr holl wahanol ddefnyddiau yr ydw i'n eu hoffi."
- "Mae'n ffantastig."
- "Mae'n dda iawn, mae gwahanol fathau o ddefnyddiau, mae'n dda i'w ail-ddefnyddio" (Canolfan adnoddau chwarae yw Re-create sy'n casglu deunyddiau gan fusnesau & diwydiant ac yn eu ailgylchu, cafodd yr holl ddeunyddiau ar y dydd eu hailgylchu).

Yn ogystal, cynhaliodd Gwasanaethau Chwarae Caerdydd ddiwyddiadau Diwrnod Chwarae llwyddiannus ar draws Caerdydd.

Castell-nedd Port Talbot

Cynhaliodd "Gwaith Chwarae..!" dri digwyddiad llwyddiannus. Cymerodd dros 100 o bobl ran yn Fairyland – yn drigolion a'u teuluoedd yn ogystal â chynghorwyr lleol. Dangosodd trafodaethau â phlant Sandfields nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn chwarae yn eu strydoedd eu hunain oherwydd pryderon ynghylch traffig trwm. Felly, penderfynwyd mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar ffurf diwrnod hwyl. Bu'r plant yn chwarae criced, bowlio â photeli plastig, 'kerbsie' a gemau stryd eraill. Yn Resolfen, amlygodd y plant a'u rhieni pryderon ynghylch y llwybr o'r parc i gae'r ysgol ble y cynhelir sesiynau chwarae. Felly poentwyd olion traed ar y palmant i ddyfnodi llwybr diogel i'r sesiynau chwarae, a defnyddiwyd y llwybr hwn yn ystod Diwrnod Chwarae. Ymunodd y fîm chwarae, fîm diogelwch y ffyrdd, staff a phlant o'r Ganolfan Plant Integredig leol a'r Maer a'r Faeres â thrigolion a phlant lleol ar y daith. I ddiylun cafwyd datiliad ar gae'r ysgol oedd yn cynnwys nifer o gemau a gweithgareddau'n cynnwys llithren ddiwr.

Wrecsam

Er mwyn dathlu Diwrnod Chwarae yn Wrecsam daeth sefydliadau sy'n ymwneud â chwarae plant ynghyd o bob cwr o'r Bwrdeistref i adennill Sgwâr y Frenhines a Ffordd Rhosddu yng nghanol y dref. Teithiodd gweithwyr chwarae, gweithwyr ieuenctid, staff blynyddoedd cynnar, plant ac oedolion yno o'r ardal gyfagos a, gyda'i gilydd, llwyddodd pawb i greu un amgylchedd chwarae mynediad agored eang.



Trwy gydol y dydd gellid gweld y plant yn chwarae yn y gaer bocsys cardbord; yn ymarfer eu sgiliau sgorio ar y cwrft pêl-fasged; yn paentio baneri; yn taro hoelion i mewn i bren; yn atgyweirio ac yn marchogaeth beiciau; yn tynnu lluniau sialc ar y palmant; yn adeiladu cuddfannau; yn cicio pêl-droed; yn sboncio ar 'space hoppers'; yn chwarae gemau stryd hen ffasiwn a bron popeth arall y gallwch ei wneud yn y stryd â fawr ddim arian a llawer o ddychymyg!

Roedd uchafbwyntiau'r diwrnod yn cynnwys creu tân ar y glaswellt o flaen swyddfeydd y Cyngor, gweld heddwision cymunedol yn chwarae ac Arweinydd y Cyngor yn gwneud llanast gyda'r stw!

Dywedodd Mike Barclay, Swyddog Datblygu Chwarae newydd Wrecsam: "Diolch i bawb a gefnogodd ac a gymerodd ran yn y digwyddiad. Roedd yn wych gweld y fath ystod eang o oedran i gyd yn cael amser da yn chwarae mewn man cyhoeddus mor amlwg".





Caerffili

Bu Lisa Williams a Nicky Heggarty o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn gyfrifol am ddiwyddiad Diwrnod Chwarae hynod o lwyddiannus ger y Safle Chwarae Antur yn Nhrefegar Newydd. Cafwyd ymweliad hefyd gan Jane Huft ar ei thraith o amgylch amrywiol ddiwyddiadau Diwrnod Chwarae.

Merthyr Tudful

Dathlwyd y diwrnod ym Merthyr Tudful gyda phedwar digwyddiad cymunedol mawr yn Nhrefechan, Gellideg, Penydarren a Bedlinog a drefnwyd gan Cymunedau'n Gyntaf Trefechan a Bedlinog, Grŵp Sefydliad Gellideg mewn partneriaeth â Fforwm Chwarae Merthyr Tudful. Bu'r cyfan yn llwyddiant ysgubol gyda rhieni a thrigolion yn cymryd rhan a chwarae gyda'u plant. Roedd Sarah Williams o Fforwm Chwarae Merthyr Tudful wrth ei bodd gyda'r modd yr aeth y diwrnod: "Roedd yn ddiwrnod hwyliog i bawb, a hoffem ddiolch i bawb gefnogodd y diwrnod am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i hyrwyddo chwarae a'i bwysigrwydd i bob plentyn".





Mynd allan i Chwarae

Gwelwyd digwyddiadau trasig yn ymwneud â phlant yn y newyddion yn ddiweddar, a 'dyw'r straeon hyn yn gwneud fawr ddim i annog rhieni a gofawyr i ganiatáu rhyddid i'w plant i fynd allan i chwarae heb oruchwyliaeth.



Amlgodd gwaith ymchwil *Play England* yng Nghymru a Lloegr ar gyfer Diwrnod Chwarae 2007, y pryderon sydd gan oedolion wrth siarad am blant yn chwarae allan:

"Y tri mater a drafodwyd fwyaf oedd (peryglon posibl) pedoffilyddion, trais ymysg ieuencid a thraffig. Credir mai'r rhain oedd y problemau pennaf oedd unai'n rhwystru plant (iau) rhag chwarae yn y strydoedd (a manau cyfagos) neu oedd yn rhwystru rhieni rhag caniatáu i'w plant fynd allan i chwarae heb eu goruchwyllo."

Er bod yr holl oedolion a ymatebodd yn ystyried chwarae mewn modd cadarnhaol roeddent yn dal i deimlo bod "nifer o rwystrau" yn atal plant rhag chwarae allan y dyddiau hyn. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau'r Ymchwilad Plentynod Da a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ar gyfer Diwrnod Chwarae o'r enw 'Word on the Street', eglurodd un ferch o oedran ysgol uwchradd sut yr oedd y canfyddiad negyddol o blant a phobl ifanc ar y stryd yn effeithio ar ei hyder:

"... ar y newyddion ... fyddan nhw fyth yn siarad am pa mor dda yw pobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc ein hoedran ni'n dda ... mae popeth sy'n cael sylw ar y newyddion yn sôn am bobl yn eu harddegau'n creu difrod ac yn gwneud llwyth o bethau drwg, felly ry'n ni'n cael ein labelu'n thygs, ond dy'n ni ddim."

Mae'r canfyddiad bod plant sy'n chwarae allan yn anghymdeithasol a bod eu rhieni neu eu gofawyr yn esgeulus wedi llanw'r cyfryngau a negeseuon gan lywodraeth Prydain ers amser maith. Bydd hyn yn dylanwadu ar bobl yn ein cymunedau ac yn tanseilio hyder teuluoedd y mae gan eu plant hawl ac angen i chwarae allan.

Yn 'Word on the Street' roedd yn amlwg bod pryderon y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn rhwystru hefyd. "Mynegodd pob grŵp y siaradom â hwy bryderon ynghylch eu diogelwch ac yn aml iawn roedd hyn yng nghyd-destun ofn troseddau". Yn ddiweddar cyhoeddodd Mencap adroddiad oedd yn dangos bod wyth deg y cant o'r plant a'r bobl ifanc ag anableddau dysgu a holwyd ag ofn gadael eu cartref rhag ofn iddynt gael eu bwlio."

Tra bo nifer o fentrau sy'n anelu i hyrwyddo diogelwch plant â bwriadau da ac yn angenrheidiol yn ôl barn gyffredinol, mae'n werth gofyn, a yw'r negeseuon diogelwch gaiff eu cyfleu i blant yn gwneud iddynt hwy a'u gofawyr i deimlo'n fwy ofnus ac yn llai abl a hyderus? Yw hi'n ddoeth inni roi'r argraff i blant, os y byddant yn mentro allan o ddrws y tŷ nad ydynt yn ddiogel ac na ellir ymddiried mewn unrhyw ddiethriaid, pan fo'r perygl o niwed mewn gwirionedd yn hynod o isel? Efallai y byddai'n well inni gymryd y dylai plant chwarae y tu hwnt i amgylchedd eu cartref heb oruchwyliaeth a'u hymbaratoi â'r sgiliau a'r gallu i lunio barn y byddant ei angen i osgoi niwed.

Caiff llawer o blant eu hudo i dreulio llawer o'u hamser rhydd o flaen y sgrîn, a bydd llawer ohonom yn ildio i'r temtasiwn o ddefnyddio'r teledu a sgriniau gemau fel "gwarchodwyr electronig"; tra bo plant yn eistedd o flaen sgrîn yn eu cartref credwn eu bod yn ddiogel ac rydym yn gwybod ble mae'n nhw (mae adroddiad diweddar gan y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, "Watching, wanting and wellbeing", yn archwilio'r canlyniadau). Roedd cyhoeddiad cynnyrch diweddar gan Fisher Price yn hysbysebu beic ymarfer, SMART CYCLE, ar gyfer plant 3 – 7 mlwydd oed y gellir ei blygio i mewn i'r teledu er mwyn i blant allu ymarfer tra'n chwarae gemau addysgiadol (pris £99.99 – heb gynnwys teledu).

Roedd y diffyg plant a phobl ifanc allan yn chwarae mewn manau cyhoeddus o amgylch Caerdydd yn ystod gwyliau'r haf yn amlwg, ac efallai nad yw'r rhesymau am hyn yn ymwneud yn unig â'r pryderon a amlinellwyd uchod neu â swyn gemau electronig. I lawer o rieni a gofawyr sy'n gweithio ac sydd â'r arian i dalu amdano, gofal plant yw'r unig ddewis pan fo'r ysgol ar gau, a bydd llawer o blant yn manteisio ar gynlluniau chwarae gwyliau a sesiynau nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol. Ond, pan ymwelodd ein Tîm Gwybodaeth â stondin Tros Gynnal yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, fe welom arddangosfa o luniau yr oedd plant wedi eu creu i amlygu'r hawliau oedd yn bwysig iddyn nhw. Allan o tua deuddeg llun, roedd y mwyafrif llethol ohonynt yn ymwneud â'r hawl i chwarae allan.

Os nad yw plant a phobl ifanc i'w gweld allan yn chwarae yn eu cymdogaethau mae hyn am amrywiol resymau, ac nid oes ateb syml. Ni allwn farnu rhieni a gofawyr, na phlant, am y cyfng-gyngor hwn, mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill yn hyrwyddo chwarae allan fel hawl ac fel elfen gadarnhaol all wella bywydau'r plant eu hunain a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Nid oes modd inni droi'r cloc yn ôl i'r 50'au a'r 60'au pan oedd y strydoedd yn wag ac y gallwn chwarae criced yn erbyn polyn lamp trwy gyda'r nos, ond fel allwn gwestiynu'r negeseuon a roddir inni, gallwn weithio i lunio ein cymunedau a sefyll lan dros fynd allan i chwarae pryd bynnag y bo cyfle.

Gwybodaeth bellach:

Ymchwil Diwrnod Chwarae ar www.playday.org.uk
Canfyddiadau Ymchwilad Plentynod Da ar www.childrenssociety.org.uk
Ymgylch 'Don't Stick It' Mencap ar www.dontstickit.org.uk
Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol www.ncc.org.uk

I ddarllen rhagor am effeithiau amddifadiad chwarae, ewch i'r tudalennau chwarae ar www.chwaraecymru.org.uk



Cynghorion ar gyfer cefnogi plant i chwarae allan yn hyderus



Mae'r mwyafrif ohonom yn cofio llawenydd a rhyddid chwarae allan fel plant.

Roedd y buddiannau inni yn anferth:

- roeddem yn cwrrd ac yn cael anturiau â ffrindiau
- roeddem yn adnabod ein cymdogaeth ein hunain tu chwith allan ac yn crwydro o'i hamgylch yn rhydd
- roeddem yn dod i adnabod cymeriadau pobl leol – pwy i'w osgoi a phwy i ymddiried ynddynt – ac roeddem hwythau'n dod i adnabod ac ymddiried ynom ninnau (neu beidio!)
- roeddem yn gorfforol heini
- roeddem yn hunanddibynol, yn ddyfeisgar ac yn annibynol.

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gefnogi a pharatoi ein plant i chwarae allan yn hyderus yn eu cymuned:

1. Dylem baratoi plant i fod yn ddiogel ar y ffordd

Gallwn baratoi plant i gerdded a seiclo'n annibynol trwy ddweud wrthynt a dangos iddynt, o oedran ifanc, sut y gallant gadw'u hunain yn ddiogel ar ac o amgylch y ffordd.

2. Dylem helpu plant i ymgyfarwyddo â'u cymdogaethau

Gallwn gerdded a seiclo yn yr ardal leol a helpu plant i ddynodi llwybrau mwy diogel at fannau chwarae a lleoedd eraill y byddant angen eu cyrraedd yn annibynol yn eu cymuned.

3. Dylem weithio gyda'r plant

Unwaith eu bod yn ddigon abl i deithio o amgylch a chwarae allan hebon ni, gallwn ddod i gytundeb â'r plant ynghylch ble ac am ba hyd y byddant yn cael mynd allan i chwarae. Bydd o gymorth i ni ac iddynt hwythau os ydynt yn gallu dweud yr amser, eu bod yn adnabod eu cymdogaeth a'u bod yn gwybod eu cyfeiriad a'u rhif ffôn.

4. Dylem gadw ein pryderon dan reolaeth

Gallwn geisio bod yn realistig ynghylch ein pryderon am ddiogelwch plant. Mae buddiannau chwarae allan yn llawer mwy na'r peryglon.

5. Dylem fagu agwedd gymunedol

Gallwn ddod i adnabod pobl leol – cymdogion a theuluoedd eraill – a chytuno i gadw llygad ar y plant. Po fwyaf o blant fydd yn chwarae allan, y mwyaf diogel y bydd ein plant.

6. Dylem newid ein hamgylchedd

Gallwn ymuno â phobl leol eraill i ymgyrchu dros newidiadau i'n cymdogaeth allai wneud ein hamgylchedd yn un ble y gall plant chwarae allan yn hyderus.

7. Dylem edrych ar ein arferion gyrru

Fel gyrrwyr gallwn arafu wrth yrru a gyrru fel yr hoffem i eraill yrru mewn strydoedd preswyl ble y mae plant yn chwarae.



Dyddiadur Dan Rees-Jones

Yn y rhifyn diwethaf o Chwarae dros Gymru soniodd Dan Rees-Jones am rai o uchafbwyntiau ei daith o amgylch prosiectau rhodwyr chwarae / mynediad agored Cymru. Bydd y canlyniadau'n helpu i hysbysu maes llafur cwrs hyfforddi 'Chwarae yn eu Cynefin' (rhan o gyfres o gyrsiau a anelir at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant mewn parciau a mannau agored cyhoeddus) a chanllaw arfer gorau. Dyma fwy o fanylion am ddim ond dau o'r prosiectau yr ymwelodd â hwy:

Safle Chwarae Antur GAVO Caerffili

'Man chwarae rhydd ar gyfer plant a phobl ifanc i chwarae, ymwneud ac ennill profiad yn eu cymuned eu hunain.'

Disgrifiad

Mae Safle Chwarae Antur GAVO Caerffili yn safle chwarae penodedig wedi ei staffio mewn man cymunedol yn Nhrefdegar Newydd, Caerffili. Fe'i ariennir trwy grant Cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gweithiodd pedwar aelod o staff ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol trwy'r gymuned gan ddefnyddio man agored yn Nhrefdegar Newydd. Er bod y man chwarae mewn cyflwr gwael ac yn cael fawr ddim defnydd ar hyn o bryd pan nod oes staff yn bresennol, y nod yw sicrhau y caiff chwarae antur ei barchu a'i werthfawrogi trwy'r gymuned fel y gall dyfu'n ddarpariaeth gwerthfawr a chynaliadwy.

Uchafbwyntiau

Mae llawer o blant, pobl ifanc a rhieni wedi mynychu a chymryd rhan yn y prosiectau. Roedd y sesiynau'n denu rhwng 20 a 30 o blant yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Roedd yr ystod oedran yn amrywio o 4 i 20 mlwydd oed ac roedd llawer yn mynychu hyd yn oed pan oedd y tywydd yn ddifrifol o wael. Bu'r gymuned gyfagos yn hynod o gadarnhaol a chefnogol, hyd yn oed pan oedd eu plant yn dod adre yn wlyb, yn fwdlyd ac yn gleisiau!

Cryfderau

- Cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad y tîm o staff a'u brwdfrydedd, sydd wedi parhau trwy'r holl nosweithiau tywyll, gwlyb ac oer.
- Mae perthnasau rhwng y staff a'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu, yn cael effaith sylweddol ar eu ymddiriedaeth, eu parch a'u hymddygiad.
- Golygodd lleoliad a natur 'mynediad agored' y prosiect y bu'n llwyddiannus iawn wrth ddod â phlant ynghyd o ystod eang o oeddrannau, cefndiroedd ac ysgolion i ffurfio cyfeillgarwch newydd a pharhaus a lefel uwch o hyder.

Heriau

- Mae'r tywydd yn heriol gan fod y safle'n agored i'r elfennau gyda fawr ddim cysgod o gwbl, gan fod y ddarpariaeth yn newydd iawn.
- Mae gweithredu mewn man cyhoeddus wedi golygu rhai anawsterau – mae'n bosibl y bydd 'defnyddwyr' eraill yn gadael sbwriel peryglus ar eu hôl, fel gwyr a baw cŵn.



Childcare Wales Learning & Working Mutually



Prosiect Taro Heibio i Chwarae Wrecsam

Disgrifiad

Mae Taro Heibio i Chwarae yn wasanaeth chwarae mynediad agored ar gyfer plant a phobl ifanc ym Mrynteg, Wrecsam.

Ffurfiwyd y prosiect wedi i ymgyngoriad cymunedol lleol amlygu'r diffyg gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal. Yn dilyn peilot llwyddiannus dair blynedd yn ôl, mae Taro Heibio i Chwarae bellach wedi derbyn ariannu craidd trwy grant Cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Taro Heibio i Chwarae bellach yn weithredol trwy gydol y flwyddyn a chaiff ei reoli gan Gynlluniau Chwarae Brynteg, grŵp gwirfoddol lleol sydd wedi darparu cynllun chwarae gwyliau dros yr ugain mlynedd diwethaf ac sy'n dal i ymgyngori ynghylch anghenion ac sy'n cynyddu cynhwysedd trwy ddefnyddio rhwydweithiau a pherthnasau lleol o fewn y gymuned.



Parhad o'r dudalen flaenorol

Uchafbwyntiau

Bydd tîm o bedwar aelod o staff, rhai ohonynt o'r gymuned leol, yn trosglwyddo tair sesiwn yr wythnos trwy gydol y flwyddyn, gan gynnig cyfle i'r plant i chwarae mewn amgylchedd 'mynediad agored' ond diogel. Mae natur cyson a rheolaidd y ddarpariaeth yn un o'r prif ffactorau yn llwyddiant y prosiect hwn. Mae'r prosiect yn denu hyd at 50 o blant a phobl ifanc i bob sesiwn, yn dibynnu ar y tymor.

Mae'r safle'n cynnig maes chwarae bychan gyda rhywfaint o offer chwarae sefydlog, parc sglefrio, cae chwarae cyhoeddus mawr a M.U.G.A (ardal gemau amld-defnydd) yn ogystal â rhywfaint o ofod dan do, ystafell newid gaiff ei defnyddio ar dywydd gwlyb ac ar gyfer storio offer chwarae.

Cryfderau

- Darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy trwy gydol y flwyddyn i'r gymuned leol.
- Tîm gwaith cryf o weithwyr chwarae ymroddedig a brwdfrydig gyda rhai aelodau o staff o'r gymuned leol.
- Parodrwydd i ddarparu deunyddiau ac offer na fyddai'n ddiogel efallai mewn sefyllfaoedd eraill, ond sy'n cynnig cyfleoedd chwarae heriol.

- Arsywi a gwerthuso rheoliadau a hyfforddiant 'yn y gwaith'.

Heriau

- Cynnig cyfleoedd chwarae heriol ble y gall plant gael hwyl a mwynhau tra'n sicrhau amgylchedd diogel ar eu cyfer.
- Argyhoeddi unigolion, aelodau o'r gymuned a sefydliadau allanol ynghylch y gwerth tymor byr a thymor hir y mae'r prosiect yn ei gynnig i'r gymuned.
- Cwblhau gwaith gweinyddol, gwaith papur a cheisiadau am ariannu mewn da bryd!



Dywed Dan: Bu cael cyfle i ymweld â'r prosiectau'n hynod werthfawr wrth helpu i hysbysu a datblygu syniadau a chynnwys ar gyfer maes llafur y cwrs hyfforddi yn ogystal â'r canllaw cefnogi dysgu ddaw gyda'r cwrs. Diolch eto i bawb a rannodd eu profiadau ac a wnaeth fy ymweliadau'n gymaint o bleser. Mae'r cwrs Chwarae yn eu Cynefin yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ond mae'n dechrau siapio. Hyderir y cynhelir peilot yn hwyrach eleni ac y caiff y cwrs ei gyflwyno'n gyffredinol yn 2008.

Cymuned yn cymryd yr awenau

Mae Pwyllgor Trigolion Stratford Green a thîm Datblygu Chwarae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio'n galed i osod 'chwarae' ar frig yr agenda yn eu cymuned.

Gyda'i gilydd, bu iddynt gynnal prosiect peilot dros 14-wythnos gyda'r nod cyffredin o gefnogi Rhodwyr Chwarae cymunedol o fis Ebrill eleni. Bu'r ymateb i'r cynllun yn ysgubol, ac ar ddiwedd mis Gorffennaf penderfynodd y gymuned i gymryd yr 'awenau' trosiadol ac i barhau i redeg y prosiect eu hunain.

Dathlwyd y trosglwyddiad swyddogol â pharti dathlu arbennig a daeth llawer o deuluoedd allan i fwynhau hwyl y min

nos. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys ymddangosiad hirddisgwyliedig y Llithren Ddŵr.

Dywedodd Jo Jones, y Swyddog Datblygu Chwarae, writhym: "Cynlluniwyd Rhodwyr Chwarae er mwyn i bobl ifanc 5-14 mlwydd oed gael mynediad i gyfleoedd chwarae o safon yn eu cymunedau.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb fu nghlwm â'r prosiect i wneud hwn yn brofiad mor werthfawr yn Stratford Green."





Canolfan Newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru

Ar Ddiwrnod Chwarae (1 Awst 2007) cyhoeddodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, gyllid ar gyfer Chwarae Cymru i ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu Canolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru.

Dros y tair blynedd nesaf bydd y Ganolfan yn cefnogi'r sector gwaith chwarae i drosglwyddo gwasanaethau o safon i blant. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yn y cenhedloedd datganoledig ac mae'n ganlyniad blynyddoedd o waith lobïo ar ran y sector chwarae yng Nghymru.

Dyma ddyfyniad o drawsgrïp o gyfweiliad sain gyda'r Gweinidog ar Ddiwrnod Chwarae:

"Mae mor braf bod yn ôl fel Gweinidog ac o fewn ychydig ddyddiau allu cyhoeddi'r Ganolfan newydd wych yma sy'n codi statws gwaith chwarae – y proffesiwn Sinderela."

"Dechreuais fy ngyrfa fel gweithiwr chwarae ac rwyf wastad wedi teimlo nad yw Gwaith Chwarae wedi derbyn y math cywir o gefnogaeth – o ran arian, achodau a statws. Mae statws yn bwysig o ran hyfforddiant o safon, a sicrhau bod y llywodraeth yn ystyried bod (gwaith chwarae) yr un mor bwysig â'r holl broffesiynau eraill yr ydym yn eu hedmygu."

"Felly mae heddiw'n ddiwrnod da iawn i waith chwarae. Bydd gan ein tîmau ar draws Cymru lawer mwy o gyfleoedd i gael eu achredu, i dderbyn cydnabyddiaeth ac i fwrw ymlaen â'r gwaith hynod bwysig yma gyda phlant a phobl ifanc."

Mae Chwarae Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â SkillsActive, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Hamdden a Dysgu Gweithredol mewn ymateb i Gytundeb Sgiliau Sector a Hyfforddiant o Ansawdd, Chwarae o Ansawdd, 2006-2011, Strategaeth y DU ar gyfer Addysg, Hyfforddiant a Chymwysterau Gwaith Chwarae.

Rhesymeg

Y rheswm pam fod y Ganolfan hon mor bwysig inni yng Nghymru yw bod cyfleoedd i blant chwarae heb oruchwyliaeth yn cael eu cyfyngu fwyfwy gan ddiffyg manau addas i chwarae, effaith traffig, a phryderon ynghylch eu diogelwch. Er mwyn gwneud yn iawn am hyn, bydd angen i ystod o ddarparwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cyfleoedd chwarae o safon uchel ar gael i bob plentyn. Fu rôl y gweithiwr chwarae erioed mor hanfodol. Ar hyn o bryd mae prinder yn y nifer o weithwyr chwarae cymwysedig a medrus sydd eu hangen i staffio gwasanaethau integredig sy'n trosglwyddo canlyniadau allweddol sy'n cynnwys chwarae.

Gweithredu'r Polisi Chwarae a'r Proffesiwn Gwaith Chwarae

Bydd y Ganolfan Hyfforddi'n cynorthwyo i greu'r isadeiledd sydd ei angen i gyflawni argymhellion a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae; Chwarae yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). Bydd ei waith yn:

- sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael ar bob lefel ar gyfer gweithwyr chwarae;
- trafod â Llywodraeth y DU ynghylch datblygiad y gweithlu plant yn cynnwys fframwaith cymwysterau a datblygiad cronfa gyffredinol o sgiliau a gwybodaeth;
- ceisio ffyrdd o fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff (ar y cyd â SkillsActive).

Amcanion

Bydd y Ganolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae'n gweithio ar draws Cymru ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda darparwyr statudol, gwirfoddol a phreifat i ddatblygu addysg a hyfforddiant hygyrch o safon, i bob un sydd â diddordeb yn narpariaeth gwasanaethau chwarae plant. Bydd y Ganolfan Genedlaethol hefyd yn chwarae rôl datblygiadol, strategol allweddol wrth fwyafu potensial pob partner ac wrth annog a chefnogi dyfeisgarwch ac ansawdd.

Amcanion y Ganolfan yw:

- Gwella argaeledd, mynediad ac ansawdd addysg a hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru
- Gwella ansawdd gwaith chwarae a thrwy hynny brofiadau plant sy'n mynychu cyfleusterau chwarae
- Mynd i'r afael â diffygion mewn gwybodaeth a sgiliau a chynyddu'r nifer o weithwyr chwarae cymwys
- Gwella statws a chydabyddiaeth gwaith chwarae fel gyrfa
- Darparu sianel ar gyfer gweithwyr chwarae yng Nghymru i gyfrannu tuag at ddatblygiadau cenedlaethol mewn addysg a hyfforddiant gwaith chwarae
- Cynnal gwaith ymchwil i gefnogi datblygu'r gweithlu
- Datblygu deunyddiau hyfforddi o safon
- Darparu gwybodaeth gyrfaoedd a hyfforddiant ar gyfer darpar weithwyr chwarae a thai sy'n weithwyr chwarae eisoes
- Ateb anghenion dysgwyr gwledig trwy rwydweithio, rhannu gwybodaeth a chydlynu
- Cefnogi datblygiad addysg a hyfforddiant Gwaith Chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gweithio mewn partneriaeth â SkillsActive i drosglwyddo amcanion allweddol y Cytundeb Sgiliau Sector
- Gweithio gydag arianwyr trwy'r Cytundeb Sgiliau Sector i gefnogi ariannu cymwysterau gwaith chwarae a datblygiad proffesiynol parhaus

Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio Rheolwr i'r Ganolfan ac yn gobeithio cyhoeddi newyddion unrhyw ddatblygiadau pellach yn y rhifyn nesaf o Chwarae dros Gymru.

I ddysgu mwy am y prosiect hwn, cysyllter â Thim Datblygu'r Gweithlu yn ein swyddfa genedlaethol (029 2048 6050).



Hyfforddiant Gwaith Chwarae yn y Gymraeg

Rydym yn falch i gyhoeddi y cynhelir y peilot cyfrwng Cymraeg cyntaf o hyfforddiant Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Chwarae Cymru yn y dyfodol agos a bydd yn cynnwys dysgwyr o Ben-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

Yr hyfforddwyr fydd Louise Addiscott, Swyddog Datblygu Hyfforddiant Chwarae Cymdeithas Chwarae Rhondda Cynon Taf, a John Thomas, Rheolwr *Interplay* yn Abertawe. Rydym yn edrych ymlaen i glywed sut aiff pethau. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn hyfforddiant P³ trwy gyfrwng y Gymraeg, cofiwch gysylltu â ni – mel@playwales.org.uk

CW'LWYM

Childcare Wales Learning & Working Mutually



Chwarae Dysgu Tyfu

Ar 29 Awst 2007 lansiodd Jane Hutt ymgyrch, yng Nghanolfan Plant Integredig Arhydyfelin ym Mhontypridd, i gynyddu recriwtio yn y sector gofal plant, plant a'r blynyddoedd cynnar ac i gynorthwyo gweithwyr yn y maes hwn i ennill gwell sgiliau a chymwysterau.



Dywedodd y Gweinidog:

"Fu erioed gwell amser i ystyried gyrfu yn gweithio â phlant yng Nghymru. Mae dros 26,000 o bobl yng Nghymru eisoes yn mwynhau gyrfaoedd sy'n rhoi llawer o foddhad iddynt, yn helpu plant i chwarae, i ddysgu ac i dyfu ac mae mwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i hyfforddi yn y maes ac ennill cymwysterau proffesiynol. Rydym am i deuluoedd deimlo'n hyderus y caiff eu plant, beth bynnag fo'r lleoliad, eu gofalu amdanynt gan staff medrus, proffesiynol sy'n helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddynt."

Caiff yr ymgyrch ei chefnogi gan ymgyrch yn y cyfryngau sy'n cynnwys cyfres o hysbysebion teledu – y cafodd un ohonynt ei ffilmio mewn parc yng Nghymru ar fore oer o Fedi.

Am ragor o wybodaeth, ymwelwch â:
www.playlearnrowales.gov.uk





Digwyddiadau

9 Hydref 2007

Cynhadledd Genedlaethol Llyfrgelloedd Hamdden a Theganau

The London Resource Centre
www.natll.org.uk

16 – 17 Hydref 2007

PlayEd – Play and Human Development Meeting

Wolverhampton

Deuddydd o gyflwyniadau, seminarau, a thrafodaethau bord gron, yn edrych ar ddatblygiadau cyfredol mewn gwaith chwarae ymarferol a damcaniaethol.

www.wolverhampton.gov.uk/leisure_culture/parks_recreation/playgrounds/play_ed07

18 Hydref 2007

Out2Play – Cynhadledd Gwaith Chwarae Flynyddol SkillsActive

Maes Criced Lords

Siaradwyr yn cynnwys - Tim Gill, "Children's use of the outdoor space"; Michael Follett, "New ways of working with children in external environments" a Robin Sutcliffe, "Raising the risk: who's responsibility?"

www.skillsactive.com

16 Tachwedd 2007

Free Range Childhood – Cynhadledd gyntaf Rhodwyr Chwarae'r DU

Canolfan Gynadledda Ryngwladol Y Riviera, Torquay, Dyfnaint Y digwyddiad undydd hwn yw'r gynhadledd genedlaethol gyntaf i ddatthu ac archwilio buddiannau, rôl a photensial prosiectau rhodwyr chwarae wrth gefnogi chwarae rhydd plant yn yr awyr agored.

www.playwork.co.uk

8 – 11 Ionawr 2008

Play in a Changing World: 17eg Cynhadledd Fyd-eang IPA

Hong Kong
www.ipaworld.org



Ariannu

• Plant Mewn Angen y BBC

Mae gan grwpiau sy'n gweithio gyda phlant bregus a difreintiedig tan ddiwedd mis Tachwedd i ymgaisio am y rownd nesaf o grantiau gan Plant Mewn Angen y BBC.
www.bbc.co.uk/pudsey/about_us/grants.shtml

• The Hilton Foundation

Mae'r sefydliad, sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, yn cefnogi gweithgareddau mewn addysg ac iechyd i leddfu dioddefaint ac i ymbaratoi unigolion.

www.hilton-foundation.org.uk

• The Morgan Foundation

Mae The Morgan Foundation yn arbenigo mewn ariannu mudiadau sy'n cynorthwyo plant a'u teuluoedd a bydd yn ystyried unrhyw waith gaiff effaith cadarnhaol ar eu lles a'u ansawdd bywyd, neu sy'n ehangu cyfleoedd a chyfleoedd bywyd ar gyfer plant o fewn eu hardal.

www.morganfoundation.co.uk/

• Wooden Spoon

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer prosiectau fydd o fudd i blant a phobl ifanc. Dylai prosiectau fel arfer fod yn rhai cyfalaf eu natur, gydag oes gweddol hir dymor.

www.woodenspoon.com/182_100.php

• O2 Community Award Programme

Mae O2 wedi ymrwmo £1m tuag at raglen gwella cymunedol genedlaethol. Mae i'r rhaglen bedair categori: gwella'r man y bydd cymuned yn ei rannu; helpu i ddod â phobl at ei gilydd; mynd i'r afael â materion llosg ac adfer balchder a gwella amgylcheddau naturiol cymunedau.

www.itsyourcommunity.co.uk neu galwch 0800 90 20 250.

• The Royal Bank of Scotland

Mae 'Supergrounds' yn rhaglen buddsoddi cymunedol o £6 miliwn, a ariennir gan grŵp RBS ac a drosglwyddir trwy 'Learning through Landscapes', sy'n helpu ysgolion cynradd i wella tir yr ysgol.

Er mwyn bod â chyfle i ennill un o Wobrau 'Supergrounds', dylai ysgolion gael eu henwebu gan gyflogai o grŵp RBS.

www.rbssupergrounds.com

Aelod Newydd o'r Tîm



Croeso i'n Cynorthwy-ydd Cyllid newydd Agii Hennessy ddechreuodd weithio gyda ni yn ystod yr haf. Ganed Agii yn Mongolia ac mae ganddi ferch sydd 'bron' a thfyfu i fyny. Hoffem ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn ei arholiadau terfynol gyda'r *Association of Accounting Technicians* ym mis Awst, a hyderwn y bydd yn mwynhau gweithio gyda ni yn Chwarae Cymru.